

Ysgol Llanhari

CYMUNED CYMREICTOD CYNNYDD



Ysgol o'r tân a anwyd
athrofa o'r lofa lwyd;
ysgol lle bu'r golosgi,
a thanwydd iaith ynddi hi:
haearn ddoe Llanhari'n ddysg,
haearn tawdd yn fraint addysg.

(A.Ll)



YSGOL LLANHARI

Ein nod fel ysgol yw cynnig addysg o'r radd flaenaf mewn awyrgylch ysgogol, gynhwysol a Chymreig.

Our aim as a school is to provide an education of the highest quality, in an inspiring, inclusive and Welsh environment.

Croeso

Rwyf wrth fy modd eich bod yn ystyried Ysgol Llanhari ar gyfer addysg eich plentyn a phleser o'r mwyaf yw cyflwyno prosbectws ein hysgol i chi. Yma cewch flas ar ein llwyddiannau academaidd ynghyd â chipolwg o fywyd byrlymus, hapus yr ysgol, oddi mewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth. Yn ogystal, cewch gyfle i ddarllen am ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol a'n disgwyliadau o'n disgyblion.

Mae ein hysgol yn ysgol gynhwysol; ysgol sy'n anelu at roi'r profiadau a'r cyfleoedd gorau posibl i bob disgybl – yn academaidd ac yn gymdeithasol, mewn amgylchedd sy'n ysbrydoli, sy'n hapus ac yn ddiogel. Rhown gyfle cyfartal i bob disgybl lwyddo ac i ddatblygu'n unigolion uchelgeisiol, hyderus a llwyddiannus; ein nod yw meithrin plant a phobl ifanc sy'n falch o'u Cymreictod ac sy'n meddu ar y cymwysterau a'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer bywyd yn yr unfed ganrif ar hugain.

Ein nod fel ysgol yw cynnig addysg o'r radd flaenaf mewn awyrgylch ysgogol, gynhwysol a Chymreig. Mae Cymuned Cymreictod a Chynnydd yn werthoedd sy'n holl bwysig i ni yn Ysgol Llanhari.

Rydym yn uchelgeisiol ar gyfer ein disgyblion. Ein gwaith ni yn yr ysgol yw eu cynorthwyo i ymgyrraedd mor uchel â phosibl, yn gymdeithasol ac yn academaidd. Yn y blynyddoedd diweddar mae Llanhari wedi gweld disgyblion yn mynd ymlaen i brifysgolion gan gynnwys Rhydychen a phrifysgolion Grŵp Russell ac i yrfaoedd llwyddiannus tu hwnt mewn meysydd amrywiol megis meddygaeth, gwyddoniaeth, y gyfraith,y cyfryngau, addysg, i fyd busnes a phrentisiaethau.

Mae lles ac anghenion pob disgybl yn ganolog i'n hathroniaeth ac ymfalchïwn yn y gefnogaeth sydd ar gael yn yr ysgol a'r berthynas agos rhwng y staff a'r disgyblion a'u teuluoedd. Mae maint ein hysgol yn golygu ein bod yn adnabod ein disgyblion i gyd yn arbennig o dda ac yn deall eu hanghenion unigol. Mae naws deuluol iawn yma yn Ysgol Llanhari ynghyd â thîm o staff sy'n gwbl ymroddedig i sicrhau dysgu ac addysgu o'r safon uchaf ac i ddarparu profiadau cyfoethogi amrywiol i'n disgyblion.

Porwch drwy'r tudalennau i ddod i adnabod yr ysgol a 'Theulu Llanhari' a chofiwch bod croeso mawr i chi gysylltu neu drefnu i ymweld â ni yn Llanhari pe baech am wybodaeth bellach.

Edrychwn ymlaen at groesawu eich plentyn i Ysgol Llanhari.

Meinir Thomas
Pennaeth



Welcome

I'm delighted that you are considering Ysgol Llanhari for your child's education. This prospectus will give you a taste of our academic achievements as well as a flavour of the busy, happy life of Ysgol Llanhari, both inside and outside the classroom. In addition, you'll find details about our vision for the future and our expectations of our pupils.

Ours is an inclusive school; one which aims to give each and every pupil the best possible experiences and opportunities – academically and socially, in a happy, safe and inspiring environment. We give every pupil the opportunity to succeed and to develop into ambitious, confident and successful individuals. Our aim is to foster children and young people who are proud of their Welshness and provide them with the essential qualifications for life in the twenty first century.

Our aim as a school is to provide an education of the highest quality, in an inspiring, inclusive and Welsh environment. Our values Cymuned Cymreictod a Chynnydd (Community, Welshness and Progress) are an integral part of our school vision.

We are ambitious for our pupils. Our job is to help them achieve and exceed their expectations, both socially and academically. In the past few years Ysgol Llanhari has regularly seen pupils gain places at prestigious universities such as Oxford and the Russell Group universities and on to successful careers in various fields such as medicine, science, education, the media, law, apprenticeships and the world of business and enterprise to name but a few.

Each pupil's needs and wellbeing is central to our philosophy and we pride ourselves on the support that is available at Ysgol Llanhari and the close relationship that exists between the staff and the pupils and their families. Our size means that we really know our pupils and understand their individual needs. There is a sense of family here at Ysgol Llanhari, coupled with teachers who are committed to ensuring teaching and learning of the highest standard and to providing a variety of enrichment activities for the pupils.

Browse through the pages to familiarise yourself with the school and 'The Family of Llanhari' – 'Teulu Llanhari' and remember that you are very welcome to get in touch with us or arrange to visit us should you require further information.

I look forward to welcoming your child to Ysgol Llanhari.

Meinir Thomas
Headteacher

Gwybodaeth gyffredinol

Ysgol sy'n darparu cyfle arbennig i'ch plentyn o 3 i 19 oed, neu i ymuno â ni'n 11 oed o un o'n hysgolion cynradd partner lleol yw Ysgol Llanhari.

Mae Ysgol Llanhari yn ysgol sy'n darparu addysg i ddisgyblion o 3 mlwydd oed hyd at 19 mlwydd oed drwy gyfrwng y Gymraeg. Cymraeg yw iaith addysgu a chymdeithasu'r ysgol ac mae ein cymuned yn seiliedig ar barch a balchder yn ein hiaith, ein diwylliant a'n hunaniaeth.

Sefydlwyd Adran Gynradd yr ysgol ym Medi 2012 gan drawsnewid Ysgol Gyfun Llanhari yn 'Ysgol Ganol' neu 'Ysgol Bob Oed'; un ysgol i ddisgyblion o 3 oed i 19 ar un safle, gydag un bwrdd Llywodraethol ac un Tîm Arwain a staff. Darperir cylch meithrin i blant o 2 i 4 oed gan Fudiad Meithrin ar safle'r ysgol a chydweithiwn â hwy yn y Cyfnod Sylfaen i ddarparu gofal cofleidiol rhan amser 'Law yn Llaw' i ddisgyblion ieuengaf yr ysgol cyn eu bod yn ymuno ag Ysgol Llanhari'n llawn amser yn y tymor yn dilyn eu penblwydd yn 4 oed. Rhydd hyn gyfle arbennig i ni fel ysgol sicrhau dilyniant a chynnydd i'n disgyblion ar hyd y cyfnodau dysgu a hynny mewn awyrgylch sy'n adlewyrchu'r uned deuluol. Rhown gyfleoedd i'r disgyblion a'r athrawon gydweithio ar draws y sector gynradd ac uwchradd mewn amgylchedd diogel, trefnus a chydlynus. Cydweithiwn yn agos iawn â'n hysgolion cynradd partner Ysgol Gynradd Dolau, Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant ac Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail er mwyn sicrhau trosglwyddo effeithiol hefyd i bob disgybl newydd sy'n ymuno â'r ysgol ym mlwyddyn 7.

Awdurdod Addysg Lleol Rhondda Cynon Taf sy'n gyfrifol am drefniadau mynediad i'r ysgol. Gallwch gysylltu â hwy ar **www.rctcbc.gov.uk** am becyn mynediad.



> "A lovely school, I love how small and personal the school is. Staff know all the students and there is a great, caring atmosphere."

General Information

Ysgol Llanhari is a school which provides education for pupils from the age of 3 to 19 through the medium of Welsh. Welsh is the language of teaching and of socialising within the school and our community is founded upon respect and pride in our language, our heritage and our Welsh identity.

The Primary Department was established in September 2012, transforming Ysgol Gyfun Llanhari, a well-established Welsh medium comprehensive school into a 'Middle School' or an ''All Through School' ; one school for 3 – 19 year olds on one campus, with one Governing Body and one Leadership Team and staff. Nursery provision 2 – 4 year olds is also provided on campus by Mudiad Meithrin with whom we also work as a school to provide wraparound pre nursery provision for our youngest pupils before they join Ysgol Llanhari full time in the term following their 4th birthday. This gives us a fantastic opportunity to ensure progression and a continuum of learning for our pupils through the learning stages, and that within an environment that replicates the family unit. Pupils and staff are given the opportunity to work together across the age sectors in a safe, organized and co-ordinated manner. We work very closely with our feeder primary schools Ysgol Gynradd Dolau, Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant and Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail in order to ensure a seamless and effective transition for those pupils who join Ysgol Llanhari at the age of 11.

Admission to the school is led by Rhondda Cynon Taff's School Admissions department. Please contact them on **www.rctcbc.gov.uk** for an admission pack.



Ethos ac amcanion yr ysgol

Ystyriwn ein hysgol yn gymuned ddysgu sy'n cefnogi, gofalu ac yn ysbrydoli. Rydyn ni am i bob disgybl sy'n rhan o gymuned ein hysgol dyfu mewn hunan-barch a hunan-werth fel y gallant fwynhau'r ystod eang o brofiadau a chyfleoedd addysgol, cymdeithasol a diwylliannol sy'n cael eu darparu ar eu cyfer ac a fydd yn eu datblygu i fod yn bobl ifanc sydd wedi eu paratoi ar gyfer gwneud y gorau o'u dyfodol.

Gyda'n gilydd rydym yn ymfalchïo yn ein hunaniaeth, ein hetifeddiaeth a'n hiaith a hyderwn y bydd pob unigolyn yn teimlo balchder o fod yn perthyn i'r ysgol hon, yn falch o'i Gymreictod a'i ddwyieithrwydd.

Rydyn ni am i'n disgyblion fod yn ddysgwyr hyderus a chanddynt ymdeimlad cryf o'u gallu i lwyddo ac i wneud gwahaniaeth yn eu cymunedau ac yn ein cymdeithas.

Ein prif amcanion felly yw meithrin:

- Dysgwyr annibynnol, chwilfrydig a mentrus sy'n gallu addasu'n hyblyg mewn byd a chymdeithas sy'n newid yn gyflym
- Balchder mewn Cymreictod, iaith ac etifeddiaeth ac yn ei sgîl datblygu dealltwriaeth a goddefgarwch tuag at ddiwylliannau amrywiol ein byd
- Unigolion cyfrifol, ystyriol a gofalgar sy'n gallu gwneud cyfraniad positif i'w cymunedau – yn lleol ac yn fyd eang
- Diwylliant o lwyddo a disgwyliadau uchel fel y gall pob unigolyn gael boddhad o'r profiad o ddysgu a chyrraedd ei botensial
- Cymuned lle mae pob unigolyn yn cael ei werthfawrogi a'i barchu ac yn gallu cyfrannu'n hyderus i fywyd ein hysgol.

Ethos and School Aims

We think of our school as a supportive, caring and inspiring learning community. We want each individual member of our school community to grow in self-worth and self-esteem. We want them to take full advantage of the wide variety of educational, social and cultural experiences and opportunities offered to them so that they can develop fully and become well rounded young people, fully prepared and equipped to make the most of their future.

Together, we take pride in our cultural identity, our heritage and our language and we feel confident that each individual will feel proud to belong to our school, comfortable and confident in their Welshness and their bilingualism.

We want our pupils to be confident learners with a strong sense of their ability to succeed and to make a difference in their communities and in our society.

Our main aims therefore, are to nurture:

- Independent, enquiring and enterprising learners who can adapt quickly in a rapidly changing world
- Responsible, caring and considerate individuals who can make a positive contribution to their communities – both local and global
- A culture of success and high expectations so that each individual is fulfilled by his or her educational experience and can realise their potential
- Pride in being Welsh, the Welsh language and heritage, thus developing an understanding and tolerance towards the different cultures of the world
- A community where every individual is appreciated and respected in their own right and can contribute confidently to the life of our school.







Dysgu ac Addysgu

Mae gan Ysgol Llanhari dîm o athrawon brwdfrydig sy'n symbylu ac yn ysbrydoli disgyblion i ddymuno dysgu a'u herio i anelu'n uchel. Rhown bwyslais mawr ar ddatblygu'r dulliau dysgu ac addysgu diweddaraf gyda gweithgor penodol yn ymchwilio, datblygu a rhaeadru'r addysgeg a'r arfer orau diweddaraf ar draws yr ysgol. Anogir dulliau dysgu amrywiol sy'n ddisgybl ganolog ac sy'n cynnig cyfleoedd i ddisgyblion gydweithio, datrys problemau, gweithio fel aelodau o dîm, gwneud damcaniaethau a datblygu barn a safbwyntiau, gwneud cysylltiadau a throsglwyddo gwybodaeth. Mae dulliau o'r fath yn datblygu hunan-hyder a hunan-werth disgyblion yn ogystal â'u gwneud yn ddysgwyr mwy annibynnol ac effeithlon. Hybir datblygiad sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol disgyblion mewn modd naturiol yn yr ymwneud cyson hwn yn ogystal â'u sgiliau meddwl a'u dealltwriaeth o sut i ddysgu. Drwy wahaniaethu effeithiol, sicrhawn bod yr holl ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwnaegol/penodol a'r mwy abl a thalentog yn profi dysgu ac addysgu wedi ei bersonoleiddio sy'n addas ar eu cyfer.

Teaching and Learning

Ysgol Llanhari has an enthusiastic team of teachers who inspire a desire to learn in our pupils and who challenge them to aim high. We place great emphasis on the development and cascading of the latest teaching and learning techniques and share good practice across the school. We encourage teaching methodology that offers our pupils the opportunity to work together, problem solve, work as team members, research and formulate theories and develop opinions and points of view. Such methods develop pupils' self-respect and self-worth as well as making them independent and effective learners. The development of pupils' literacy, numeracy and digital competence are enhanced and developed in this way as are their thinking skills and their understanding of how we learn. Through effective differentiation, we ensure that all pupils, including those with additional/specific learning needs, and the more able and talented, experience personalised teaching and learning.

Cefnogaeth a Lles

Anelwn yn uchel yn Ysgol Llanhari ymhob agwedd o fywyd yr ysgol gan weithio'n ddyfal tuag at godi safonau'n barhaus. Does dim dwywaith bod angen i blentyn deimlo'n hapus a diogel yn yr ysgol os yw am ffynnu'n academaidd ac yn gymdeithasol. O'r herwydd, un o brif amcanion yr ysgol yw sicrhau ethos ofalgar, gefnogol a chlos lle gwerthfawrogir yr unigolyn am yr hyn ydyw. Mae trefn gadarn o gynnal a chefnogi wedi ei hen sefydlu yn yr ysgol er mwyn hybu'r awyrgylch hapus a diogel yma.

Mae gan bob athro/awes gyfrifoldeb am ofal a lles eu disgyblion yn ogystal ag am gynnal safonau cyrhaeddiad. Mae gan bob disgybl athro penodol sy'n gwneud y gwaith creiddiol o hyrwyddo'i ddatblygiad a'i les fel unigolyn o fewn yr ysgol. Yn yr adran gynradd gwneir hyn gan yr athro/athrawes ddosbarth ac yn yr adran uwchradd y Tiwtor Personol yw'r cyswllt dyddiol cyntaf, gyda'r Arweinydd Cynnydd yn cydlynu'r cyswllt â'r rhieni a staff eraill er mwyn cynorthwyo datblygiad llawn a llwyddiannus pob unigolyn.

Atgyfnerthir gwaith yr athrawon dosbarth, y tiwtoriaid personol a'r Arweinydd Cynnydd gan y Cydlynydd Mentora Disgyblion sy'n gweithio gyda disgyblion a rhieni ar draws yr ystod oedran i gefnogi lles emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol disgyblion. Cefnogir hyn oll gan waith y Cynorthwy-wyr Dysgu, yr Adran Gynnal, y Tîm Arwain a'r Pennaeth.

Gosodwn bwysigrwydd a gwerth mawr ar gyswllt agos ac agored rhwng yr ysgol a'r cartref. Mae'r berthynas arbennig hon yn hanfodol i lwyddiant pob disgybl ac yn rhoi sail gadarn a chefnogaeth gref i ddatblygiad a chynnydd addysgiadol, cymdeithasol ac emosiynol yr unigolyn.



Support and Wellbeing

Ysgol Llanhari aims high in all aspects of school life and strives to raise standards continually. It is a well proven fact that a child must feel happy and safe in school to thrive academically and socially. Therefore, one of our main aims is to create a caring, supportive ethos where each person is valued as an individual. A core part of maintaining this happy and safe environment, is our school's well established system of support and care.

Every teacher in the school has a responsibility for the care and wellbeing of pupils as well as maintaining attainment standards. Each pupil has a particular teacher who is responsible for promoting his/her wellbeing and development as an individual within the school. In the primary department, this is part of the class teacher's role. In the secondary department, the Personal Tutor is the main contact for pupils, supported by the Progress Leader and the Pupil Mentoring Co-ordinator who will liaise with parents and other members of staff to ensure the wellbeing of the child. Their work and that of the Primary Department teachers is supported further by the Teaching Assistants, the Learning Support Department, the Leadership Team and the Headteacher.

Ysgol Llanhari sets great importance and value on a close and open partnership between school and home. This special relationship is a crucial factor in each pupil's success and provides a firm foundation and strong support to the individual's educational, social and emotional development and progress.

Cynhwysiant Addysgol a Chymdeithasol

Gweithredwn bolisi cynhwysol yn yr ysgol sy'n rhoi cyfle i bob disgybl gael mynediad i'r cwricwlwm gyda chefnogaeth pan fo angen, boed yn academaidd neu'n emosiynol. Anelwn at feithrin hinsawdd o lwyddiant trwy gydnabod a chanmol ymdrechion y disgybl fel unigolyn. Darparwn gynlluniau gwaith amrywiol a gwahaniaethol, deunyddiau dysgu, profiadau a dulliau dysgu amrywiol i ddiwallu anghenion pob disgybl. Rhown gynhaliaeth unigol neu mewn grwpiau bach i rai disgyblion a bydd cynorthwy-wyr dysgu yn cynnal disgyblion o fewn y dosbarth. Darparwn brofiadau ymestynnol a chyfoethogi ar gyfer y disgyblion mwy abl a thalentog e.e. Rhwydwaith Seren.

Yn unol â'n hymrwymiad i gyfleoedd cyfartal, nid ydym am i ddisgyblion ddioddef oherwydd eu hanableddau. Bydd y Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Cydlynydd Mentora Disgyblion yn cydweithio â rhieni i sicrhau fod yr holl ddisgyblion yn gallu cyfranogi yng nghwricwlwm yr ysgol.







Educational and Social Inclusion

Our inclusion policy ensures that every pupil can access the curriculum, with support where necessary, be that academically or emotionally. We aim to create a climate of success by acknowledging and praising the individual pupil's effort. Varied and differentiated schemes of work, teaching materials, learning experiences and methods meet the needs of every pupil. Support, either individually or in small groups is provided for some pupils, and at other times, Learning Support / Teaching Assistants support pupils within the lessons. Extended and enrichment experiences are provided for the More Able and talented pupils e.g. Seren Network.

We are committed to ensuring no pupil is disadvantaged due to disability. The Additional Learning Needs Co-Ordinator and the Pupil Mentoring Co-ordinator work closely with parents to ensure all pupils can participate in the school curriculum.



> The school is excellent at communicating information and there is a welcoming and friendly atmosphere. Thank you!



Cyngor yr Ysgol

Mae disgyblion yr adrannau cynradd ac uwchradd yn cydweithio'n effeithiol iawn fel un cyngor ysgol brwdfrydig. Rhydd y cyngor gyfle gwych iddynt ddatblygu sgiliau personol eang iawn a sicrhau llais i'r disgyblion ar faterion ysgol gyfan. Etholir disgyblion i'r Cyngor yn flynyddol gan eu cyd-ddisgyblion.

School Council

Pupils form the primary and secondary department work together very effectively as one enthusiastic school council. This gives the members valuable opportunities to develop lifelong skills and ensures a clear voice for all pupils in the school on matters which affect them. Pupils are annually elected to the School Council by their peers.



Y cwricwlwm

Mae Ysgol Llanhari yn darparu cwricwlwm eang, cytbwys a chynhwysol ar draws y Camau Cynnydd. Sirhewn fod pob unigolyn yn cael mynediad at y profiadau, yr wybodaeth a'r sgiliau y mae eu hangen arnyn nhw er mwyn bod yn ddinasyddion cyfrifol, gweithredol sy'n barod i ffynnu yn yr unfed ganrif ar hugain.

Fel ysgol 3-19 amcanwn i adeiladu ar sgiliau a gwybodaeth ein disgyblion o'r Meithrin hyd at ddiwedd Blwyddyn 13. Manteisiwn ar bob cyfle i bontio rhwng y cyfnodau dysgu yn Llanhari gan rannu arbenigedd staff ar draws y sectorau cynradd ac uwchradd. Cydweithiwn er mwyn creu continwwm dysgu sy'n sicrhau dilyniant a pharhad ac sy'n hybu cyraeddiad uwch.

Y Pedwar Diben sydd wrth wraidd ein cwricwlwm. Ein dyhead ar gyfer pob plentyn yw eu bod yn datblygu i fod yn:

- ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
- ddinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n barod i fod yn ddinasyddion Cymru a'r byd
- gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywydau a gwaith
- unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Mae ein cwricwlwm hyd at flwyddyn 9 yn cynnwys cyfleoedd dysgu o fewn ac ar draws bob un o'r Chwe Maes Dysgu a Phrofiad, sef:

Iechyd a Lles
Mathemateg a Rhifedd
Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
Gwyddoniaeth a Thechnoleg
Dyniaethau
Celfyddydau Mynegiannol.

Wrth wireddu'r cwricwlwm, rydym yn meithrin dealltwriaeth ein dysgwyr o addysg gyrfaoedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â'r byd gwaith ynghyd ag addysg hawliau dynol ac amrywiaeth. Rhown ystyriaeth lawn hefyd i elfennau gorfodol y Cwricwlwm, sef Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM), Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh), Cymraeg a Saesneg.

Mae sgiliau trawsgwricwlaidd llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol wedi'u hymwreiddio drwy'r cwricwlwm a sicrhewn fod digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu, mireinio a chymhwyso'r sgiliau yma ar draws y meysydd dysgu a phrofiad.



The curriculum

Ysgol Llanhari provides a broad, balanced and inclusive curriculum across the Progression Steps. We want all individuals to have access to the experiences, knowledge and skills they need in order to be responsible, active citizens who are ready to thrive in the twenty-first century.

As a 3-19 school we aim to build on the skills and knowledge of our pupils from Nursery to the end of Year 13. We take advantage of every opportunity to transition between the learning periods in Llanhari, sharing staff expertise across the primary and secondary sectors. We work together to create a learning continuum that ensures progression and continuity and promotes higher attainment.

The Four Purposes are at the heart of our curriculum. Our aspiration for all children is that they develop to be:

- ambitious, capable learners who are ready to learn throughout their lives
- principled, informed citizens who are ready to be citizens of Wales and the world
- enterprising, creative contributors who are ready to play their full part in their lives and work
- healthy, confident individuals who are ready to live fulfilling lives as valued members of society.

Our curriculum up to year 9 includes learning opportunities within and across each of the Six Areas of Learning and Experience, namely:

Health and Wellbeing
Mathematics and Numeracy
Languages, Literacy and Communication
Science and Technology
Humanities
Expressive Arts.

In realising the curriculum, we foster our learners' understanding of careers education and experiences linked to the world of work together with human rights and diversity. We also give full consideration to the mandatory elements of the Curriculum, namely Religion, Values and Ethics (RVE), Relationship and Sexuality Education (RSE), Welsh and English.

The cross-curricular skills of literacy, numeracy and digital competence are embedded throughout the curriculum and we ensure that there are plenty of opportunities for pupils to develop, refine and apply these skills across the learning and experience areas.

Y Camau Cynnydd

As previously noted, pupils follow the Curriculum for Wales in the Progression Steps until year 9

Blwyddyn 10 - 11 (14 - 16 oed)

Addysgir y pynciau craidd sef Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth ynghyd ag Addysg Gorfforol, Addysg Grefyddol, Addysg Bersonol a Chymdeithasol yn cynnwys Addysg Ryw a Byd Gwaith a'r Fagloriaeth Gymraeg i bob disgybl. Caiff pob disgybl gyfle i ddewis o opsiynau o bynciau eraill hyd at Lefel 2 (TGAU/BTEC). Darperir gwybodaeth benodol i ddisgyblion a rhieni'n flynyddol ynglŷn â'r opsiynau.

Blwyddyn 12 - 13 (16 - 18 oed)

Ynghyd â'r Fagloriaeth Gymreig, caiff disgyblion ddewis o ystod o bynciau i'w hastudio hyd safon L3 (Uwch Gyfrannol ac Uwch a BTEC). Astudir Addysg Bersonol a Chymdeithasol hefyd sy'n cynnwys Addysg Ryw a Byd Gwaith ac Addysg Grefyddol. Cydweithiwn ag ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg lleol (RhCT a Phenybont) mewn consortiwm o'r enw CYFLEOEDD er mwyn darparu rhai cyrsiau ar y cyd sy'n sicrhau dilyniant o fewn yr ysgol i'r disgyblion ynghyd â chyfle i ddarparu arlwy ehangach o bynciau. Rhydd y bartneriaeth hon gyfle i'r disgyblion ddatblygu eu sgiliau cymdeithasol a'u hyder y tu hwnt i'r ysgol gartref mewn paratoad ar gyfer y gweithle neu brifysgol ond gan gadw Ysgol Llanhari fel cyswllt cartref y disgybl.

> "Very pleased with the progress my son is making and he is thriving in the school."





The Progression Steps

As previously noted, pupils follow the Curriculum for Wales in the Progression Steps until year 9

Year 10 - 11 (age 14 - 16)

The core subjects of Welsh, English, Mathematics and Science are taught along with Physical Education, Religious Education, Personal and Social Education (PSE) which includes Sex end Relationships Education and Work Related Education and the Welsh Baccalaureate to every pupil. All pupils will be able to choose from a range of Level 2 option subjects (GCSE/BTEC). Specific information is provided to pupils and parents annually regarding the option choices.

Years 12 and 13 (age 16 - 18)

Along with the Welsh Baccalaureate, pupils will be able to choose from a range of subjects to study to Level 3 (AS / A Level and BTEC). Personal and Social Education which includes Religious Education, Sex Education and Work Related Education is also taught. Ysgol Llanhari works collaboratively with local Welsh medium secondary schools (RCT and Bridgend LEA). This ensures progression within the school for pupils whilst ensuring a broad range of subjects. This partnership provides pupils with an extra opportunity to develop their social skills and confidence in preparation for the world of work or university within the security of remaining within Ysgol Llanhari as their base school.

> “I was very impressed with the pupils’ manners, participation and interaction, they were great.”







Asesu a Chofnodi Cynnydd

Mae cynnydd academaidd pob disgybl yn cael ei fonitro a'i asesu yn gyson drwy gydol y flwyddyn yn ogystal â thrwy asesiadau ffurfiol allanol megis y profion Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol, ac yn yr Adran Uwchradd arholiadau TGAU/BTEC/Safon AS/ Safon Uwch. Rhydd yr ysgol ffocws benodol ar Asesu ar Gyfer Dysgu sy'n annog disgyblion i chwarae rhan lawn yn y broses asesu er mwyn gwneud y defnydd gorau o adborth i gyflawni eu potensial.

Caiff pob rhiant gyfle i ddod i drafod cynnydd eu plentyn gyda'r ysgol. Rhennir gwybodaeth â rhieni ynglŷn â chynnydd disgyblion yn rheolaidd drwy nosweithiau rhieni penodol a bydd rhieni'n derbyn adroddiad llawn blynyddol ym mlynyddoedd Meithrin - 13 a fydd yn adrodd yn llawn ar gyrhaeddiad academaidd, personol a chymdeithasol. Bydd adroddiadau hefyd yn cynnwys hunan-asesiad gan y disgybl ei hun. Darperir cofnod Interim o gyrhaeddiad i rieni sy'n rhoi braslun o gynnydd, ymddygiad, ymagwedd a phresenoldeb y disgybl, gan dynnu sylw at lwyddiannau a than-gyflawni lle bo hynny'n digwydd. Mewn unrhyw sefyllfa o bryder, gwahoddir rhieni i'r ysgol i drafod y sefyllfa ac anogir y rhieni i gysylltu â'r ysgol drwy'r athro/athrawes ddosbarth yn yr adran gynradd a'r Arweinydd Cynnydd yn yr adran uwchradd i drafod unrhyw bryderon a gyfyd ac i drefnu cyfarfod gyda'r aelod o staff sydd yn y sefyllfa orau i ddelio â'r achos.

Assessing and Recording Progress

Every pupil's academic progress is carefully assessed each year, throughout their time at Ysgol Llanhari. In addition formal external assessments such as the National Literacy and Numeracy tests, and in the secondary department GCSE/BTEC/AS/A Level examinations help us measure academic development. As a school we place great emphasis on Assessment for Learning, developing strategies that enable pupils to become actively involved in improving their own their learning.

Each parent is invited to the school to discuss their child's progress. Information is shared with parents through specific Parents' Evenings and an annual full report addressing academic attainment and personal and social development. Reports also include the child's self-assessment of their development. An interim report is sent to parents which gives a summary of progress, behaviour, attitude and attendance. In any situation of concern, parents are invited to school to discuss the situation and parents are also encouraged to contact the school through the class teacher in the primary department and the Progress Leader in the secondary department to discuss any issues that arise or to arrange a meeting with the relevant members of staff.

Ymddygiad a Disgyblaeth Gadarnhaol

Cyfrifoldeb pob disgybl, gyda chefnogaeth rhieni ac athrawon, yw ceisio sicrhau awyrgylch ac ethos ofalgar a chadarnhaol lle gall pob unigolyn dyfu'n hyderus a hapus gan fwynhau holl fanteision addysg gyflawn. Gwobrwyir ymddygiad da yn Ysgol Llanhari a cheir disgwyliadau clir a chamau gwella ymddygiad pan fo angen. Ni dderbynnir bwlio o unrhyw fath yn Ysgol Llanhari. Oherwydd maint yr ysgol a'n systemau bugeiliol cryf, caiff unrhyw ddigwyddiad ei amlygu'n gyflym a delir ag ef yn ddioed. Mae cyfraddau gwahardd Ysgol Llanhari'n eithriadol o isel ac yn adlewyrchiad o'n disgwyliadau uchel a'r gymuned drefnus sydd gennym yn ein hysgol.

Amilnellir disgwyliadau a pholisi trefn a disgyblaeth yr ysgol yn ein polisi ymddygiad cadarnhaol a pherthnasoedd sef Teulu Llanhari. Gofynnir i bob disgybl a rhiant ymrwymo i gytundeb ysgol cartref yr ysgol a ddosberthir ar ddechrau gyrfa'r plentyn yn Ysgol Llanhari

> "It was a delight to come into the school and deliver sessions to the pupils who were very well behaved."



Positive Conduct and Discipline

It is the responsibility of every pupil, with the support of parents and teachers, to try to ensure an atmosphere and ethos that is pleasant, safe and well organised in order that all pupils receive a complete education. Good behaviour is rewarded at Ysgol Llanhari and we have clear guidelines for expectations and the consequences of noncompliance. Bullying is not tolerated in any form at Ysgol Llanhari; due to our excellent pupil: teacher ratio and our robust pastoral systems, any instances are easily identified and swiftly dealt with. Exclusion rates at Ysgol Llanhari are extremely low, reflecting the high expectations and the organised community we nurture at our school.

The school's expectations and policy for conduct and discipline is outlined in Teulu Llanhari/ The Family of Llanhari booklet, our positive behaviour and relationships policy. Parents and pupils are asked to sign a home-school agreement at the start of every pupil's educational journey at Ysgol Llanhari.



Presenoldeb

Fel ysgol, gweithiwn yn galed iawn i sicrhau'r lefelau presenoldeb uchaf posibl fel y gall pob disgybl elwa'n llawn o'r cyfleoedd cwricwlaidd, allgyrsiol a chymdeithasol sydd ar gael iddynt yn yr ysgol. Rydym yn monitro presenoldeb yn ofalus ac yn gweithio'n agos gyda Gwasanaeth Presenoldeb a Lles Rhondda Cynon Taf i gynnal cyfraddau presenoldeb uchel. Mae gan bob disgybl yn ysgol Llanhari darged presenoldeb o 95% o leiaf; yn wir, llwydda llawer o ddisgyblion i gyrraedd presenoldeb o 100% bob tymor. Gwobrwyir presenoldeb da neu welliant. Mae presenoldeb disgyblion Ysgol Llanhari yn cymharu'n ffafriol iawn ag ysgolion eraill Rhondda Cynon Taf a chyfartaledd Cymru.

Gwerthfawrogwn y gefnogaeth a gawn gan rieni sy'n atgyfnerthu pwysigrwydd presenoldeb uchel a sicrhau bod eu plentyn yn dod i'r ysgol yn rheolaidd.



Attendance

As a school, we strive to ensure the highest possible attendance rates so that every pupil is able to benefit fully from the curricular, extra-curricular and social opportunities available at Ysgol Llanhari. We monitor attendance carefully and work closely with Rhondda Cynon Taf Attendance and Welfare Service in order to maintain high attendance rates. Each pupil at Ysgol Llanhari has an attendance target of 95% However, we would like to see pupils aim even higher than this – indeed, many pupils succeed in attaining 100% attendance every term. Good attendance is rewarded. Ysgol Llanhari pupils' attendance compares very favourably with data from Rhondda Cynon Taf and the All Wales Attendance Data

We appreciate the support you give the school in this process by explaining the importance of high attendance and by encouraging your child to attend school regularly.



Cludiant

Trefnir cludiant disgyblion Llanhari gan AALl RhCT a Phen-y-Bont. Caiff rhieni disgyblion newydd i'r Adran Gynradd fanylion trafnidiaeth gan yr ysgol a chan awdurdod RhCT. Os nad yw disgyblion cynradd yn teithio i'r ysgol ar y bws ysgol, anogir rhieni i rannu ceir neu i drefnu 'bws cerdded'. Ceir staff yn unig sy'n cael dod ar y safle.

Os oes gennych unrhyw broblem yn ymwneud â chludiant yr AALl , yna cysylltwch â:

Penybont
01656 642653

Rhondda Cynon Taf
01443 425001

Bro Morgannwg
01446 704664

Transport

Transport for Llanhari pupils is organised by the LEAs of RCT and Bridgend. Parents of new pupils to the Primary Department will receive transport details from the school and from RCT LEA. Primary Department pupils who do not travel on the school bus are encouraged to share cars or to arrange a 'walking bus'. Staff cars only are permitted on site.

If you have any problem regarding LEA transport, then contact:

Bridgend
01656 642653

Rhondda Cynon Taff
01443 425001

Vale of Glamorgan
01446 704664



Trosglwyddo

Mae sicrhau trosglwyddo neu bontio llyfn rhwng yr amrywiol gyfnodau dysgu o fewn yr ysgol yn hanfodol i lwyddiant a lles pob plentyn.

Croesewir rhieni a darpar ddisgyblion Meithrin/ Derbyn i'r ysgol yn ystod y tymor cyn iddynt gychwyn i gwrdd â'u hathrawon ac i ymgyfarwyddo â'r ysgol. Caiff disgyblion gyfle i dreulio diwrnod 'cwrdd â'r athro/athrawes newydd' yn ystod tymor yr haf cyn symud dosbarth hefyd.

Gwneir trefniadau arbennig i sicrhau bod trosglwyddo effeithiol yn digwydd ar gyfer y disgyblion hynny sy'n ymuno ag Ysgol Llanhari ym Mlwyddyn 7 o'n hysgolion cynradd cyswllt sef Ysgol Gynradd Dolau, Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail ac Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant. Cydweithiwn yn agos iawn fel pedair ysgol i sicrhau bod anghenion a gwybodaeth academaidd a chymdeithasol disgyblion yn cael eu hystyried wrth iddynt symud ysgol. Mae'r athrawon yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod gwaith disgyblion er mwyn sicrhau ein bod yn gyson wrth asesu, bod disgwyliadau cytûn gennym a hefyd i rannu arfer dda dysgu ac addysgu ac i ddatblygu adnoddau ar y cyd. Caiff disgyblion blwyddyn 5 ymweld â'r ysgol ar gyfer diwrnod trosglwyddo yn nhymor yr haf ac yn ystod Blwyddyn 6, daw'r disgyblion i Lanhari am y dydd sawl gwaith ar hyd y flwyddyn ar gyfer gweithgareddau pynciol. Mynycha ddisgyblion hŷn Llanhari'r ysgolion cynradd ar gyfer sesiwn holi ac ateb i Flwyddyn 6.

Trosglwyddir gwybodaeth a fydd o fudd i gynorthwyo'r disgybl i ymgartrefu yn Llanhari ymlaen llaw drwy gyfres o gyfarfodydd rhwng athro Blwyddyn 6 ac Arweinydd Cynnydd Blwyddyn 7, y Cydlynydd Mentora disgyblion ac aelodau o'r adran gynnal. Caiff rhieni Blwyddyn 6 gyfle i ymweld â'r ysgol a derbyn gwybodaeth. Cyrchir barn y disgyblion, staff y cynradd a'r uwchradd wrth osod y disgyblion mewn dosbarthiadau cofrestru cyn diwedd tymor yr haf ac anogir rhieni hefyd i adael i'r ysgol wybod am unrhyw ddymuniadau neu bryderon yn hyn o beth er mwyn esmwythau'r broses drosglwyddo. Anogir pob disgybl ym mlwyddyn 7 i fynychu'r cwrs anwytho ym mis Medi er mwyn cael cyfle i ddod i adnabod ei gilydd.



Transition

Ensuring a smooth and seamless transition at all stages of school life is paramount to every child's success and wellbeing.

Parents and prospective Nursery/ Reception pupils are welcomed to school in the term before they start to meet their teachers and to familiarise themselves with the school. Primary Department pupils also spend a 'getting to know your teacher' day in their new class at the end of the summer term. Transition is planned very carefully for those pupils who join Ysgol Llanhari in Year 7 from our 3 feeder schools Ysgol Gynradd Dolau, Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail ac Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant. We work very closely as 4 schools in order to ensure that the pupils' needs and all relevant academic and social information is shared and considered as they change school. Teachers meet regularly to discuss pupils' work so that we are consistent in the way we assess, that we have the same expectations and also to share good practice in teaching and learning and to develop resources together. Pupils visit Ysgol Llanhari in the summer term of Year 5 and during Year 6 they attend Llanhari on many occasions during the year for curricular days. Older pupils from Ysgol Llanhari visit the feeder primary schools for a session to put Year 6 at ease.

Information to ensure a smooth transfer is shared between the Year 6 teachers and the Progress Leader for Year 7, the Pupil Mentoring Co-Ordinator and members of the support department. Year 6 parents are invited to visit the school to meet the staff and receive information. Pupils, primary and secondary school staff are consulted as part of the process of placing pupils in tutor groups during the summer term and parents are also encouraged to let the school know of any wishes or concerns, ensuring a smooth and confident move between primary and secondary for all. Every child in Year 7 is encouraged to attend the induction course at the beginning of year 7 where they bond and get to know each other.



> "We have been delighted with our decision to send our daughter to Ysgol Llanhari and cannot praise the staff and the school enough."

Addysg Gorfforol a Chwaraeon

Mae traddodiad cryf iawn o lwyddiant ym myd chwaraeon yn Llanhari gyda rhestr faith o fodelau rôl ar gael i'n disgyblion o blith y disgyblion niferus hynny sydd wedi cynrychioli'r ysgol ar y lefel uchaf yn sirol, ac wedi mynd ymlaen i gynrychioli Cymru a Phrydain. Anogwn ein disgyblion i fyw'n iach ac i gyfrannu fel perfformwyr, arsylwyr neu fel swyddogion ym myd chwaraeon er mwyn datblygu eu hyder, eu sgiliau ac agweddau iach. Rydym yn ffodus bod gennym ddigonedd o dir ar y safle ar gyfer gweithgareddau chwaraeon yn ogystal â champfa a neuadd chwaraeon fawr a ddefnyddir gan ddisgyblion yr Adran Gynradd ac Uwchradd

Cynhelir clybiau ymarfer corff ar ôl ysgol hefyd i ddisgyblion o'r dosbarth derbyn i fyny dwry'r adran uwchradd.

Yn ystod eu gyrfa yn yr ysgol, caiff y disgyblion brofiadau amrywiol megis pêl-rwyd, pêl-droed, rygbi, athletau, pêl-foli, traws gwlad, gweithgareddau antur, mynydda ym Mannau Brycheiniog ac Eryri, beicio mynydd yn Afan Argoed, cerdded ceunant ym Mannau Brycheiniog, cyfeiriannu, badminton, a gymnasteg. Cefnogwn ddiddordebau chwaraeon ehangach ein disgyblion drwy drefnu iddynt fynychu digwyddiadau megis gala nofio'r Urdd.

Caiff disgyblion hŷn yr ysgol gyfle i hyfforddi'n Arweinwyr Chwaraeon a chyfle i fentora disgyblion iau'r ysgol a disgyblion yr ysgolion cynradd cyswllt. Cynhelir dyddiau pontio chwaraeon i ddisgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn flynyddol. Cynhelir mabolgampau blynyddol yr ysgol (Adran Gynradd ac Adran Uwchradd) yn nhymor yr haf.





Physical Education and Sport

Ysgol Llanhari has a long standing sporting tradition with many role models amongst present and past pupils who have represented the school at the highest levels and have gone on to represent Wales and Britain in various sports. We encourage all our pupils to adopt a healthy lifestyle and to contribute as performers, spectators or officials in sport in order to develop their confidence and skills. We are fortunate that the school is situated on a vast campus with ample fields and pitches as well as a gymnasium and a sports hall, which are used by primary and secondary department pupils.

After school clubs are held after school from reception through to the secondary department.

During their time at Ysgol Llanhari, pupils will be given opportunities to experience various aspects of physical education and sport such as gymnastics, netball, football, rugby, volleyball, athletics, cross-country, adventure activities such as mountain biking, gorge walking and orienteering. The school supports pupils' wider sporting interests by arranging for them to attend events such as the Urdd swimming galas.

The older pupils are given opportunities to train as Sports Leaders and are able to mentor the younger pupils and pupils of the feeder primary schools. Year 5 and 6 pupils attend sporting activity days at Ysgol Llanhari and the primary and secondary department sports days are held annually in the summer term.



Gweithgareddau cyfoethogi

Rhown bwyslais mawr ar weithgareddau all-gyrsiol yn yr ysgol, nid yn unig am eu gwerth cynhenid o ran datblygiad personol a chymdeithasol yr unigolyn ond hefyd am eu bod yn rhoi cyfle i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

Ceir cyfleoedd amrywiol yn yr ysgol i ddisgyblion - o chwaraeon i sioeau cerdd ysgol gyfan a gweithgareddau cerddorol megis y côr, clybiau amrywiol, cyfleoedd i gystadlu mewn eisteddfodau a chystadlaethau megis siarad cyhoeddus. Mynnwch gipolwg ar Trydar **@YsgolLlanhari** a'n cyfrif Instagram **@ysgol_llanhari** i weld ein harlwy o weithgareddau allgyrsiol. Mae'r ysgol hefyd yn trefnu llu o ymweliadau addysgiadol a chyrsiau preswyl, gwibdeithiau y tu allan i oriau ysgol.

Yn yr adran gynradd, cynhelir gweithgareddau yn ôl amserlen benodol ar ôl ysgol. Trefnir gweithgareddau ar ôl ysgol yn ogystal i ddisgyblion uwchradd gan Swyddogion Ymgysylltu a Chyfranogi Ieuenctid yr Awdurdod Addysg Lleol (YEPS).

Enrichment Activities

Great emphasis is given in the school to extra-curricular activities, not only for enjoyment, and personal and social development, but also to enable pupils to use the Welsh language outside the classroom.

Varied opportunities are available to pupils, from various sports clubs to whole school shows, musical opportunities such as choirs, competing in eisteddfodau and local activities such as public speaking debate competitions to name but a few. A look at Twitter **@YsgolLlanhari** and our Instagram account **@ysgol_llanhari** will give you a taste of the current enrichment activities. The school also organises an array of educational visits and residential visits outside school hours.

In the primary department, there is a specific calendar of activities which take place after school. In addition in the secondary department, after school activities are arranged by the LEA's Youth Engagement and Participation service (YEPS).



Cyngor a chyfarwyddyd Gyrfau, Addysg Byd Gwaith

Fel rhan o Raglen Addysg Bersonol a Chymdeithasol yr ysgol a gofynion y Cwricwlwm i Gymru, mae disgyblion ar draws yr ysgol yn derbyn gwybodaeth a chyngor am fyd gwaith, cyrsiau a dewisiadau gyrfa. Manteisiwn ar wasanaeth Swyddog Gyrfa Cymru yn yr uwchradd. Daw nifer o gynrychiolwyr sefydliadau Addysg Uwch, Addysg Bellach ac o fyd busnes a masnach i'r ysgol yn eu tro i drafod cyrsiau a chynnal gweithdai gyda'r disgyblion. Rhoddir hyfforddiant i ddisgyblion ar fedrau cyfweld a sgiliau profiad gwaith.

Trefnir Noson Ddewisiadau er mwyn hysbysu rhieni Blynyddoedd 9 ac 11 am opsiynau a dewisiadau 14+ a 16+. Mae croeso bob amser i unrhyw riant a/neu ddisgybl drefnu i gael sgwrs gyda'r Arweinydd Cynnydd perthnasol ynglyn â dewisiadau, yn enwedig ar gyfer opsiynau Ôl-16. Caiff disgyblion CA4 gyfle i dreulio wythnos profiad gwaith yn Nymor yr Haf.

Work Experience and Career Advice

As part of the school's Personal, Social and Health Education (PHSE) Programme and the requirements of the Curriculum for Wales, pupils receive detailed information and advice on courses and career choices. The secondary pupils benefit from the service of a Careers Officer (Careers Wales). Representatives from Higher and Further Education establishments and from the fields of business and commerce come to school in turn to discuss courses and to hold workshops with pupils. Training is offered to pupils on interview skills and work experience.

Subject Choices Evenings are arranged in order to inform parents of Years 9 and 11 of the options and choices at 14+ and 16+. Parents and/or pupils are welcome to make arrangements to discuss choices with the Progress Leaders, especially for Post 16 options. Arrangements are made for all pupils in KS4 to spend a week in a work placement in the Summer term.

Gwisg Ysgol

- Crys polo du Ysgol Llanhari
- Hwdi swyddogol ddu Ysgol Llanhari sy'n cynnwys bathodyn yr ysgol yn yr Adran Uwchradd a Siwmper Goch sy'n cynnwys bathodyn yr ysgol yn yr Adran Gynradd. O Fedi 2024 ymlaen bydd disgyblion sy'n cychwyn ym mlwyddyn 7 yn gwisgo siwmper goch yn hytrach na hwdi.
- **Trowsus**
  Troswsus ysgol du syth gyda llinell hem llac.
  Ni chaniateir trowsus tynn, 'skinny', leggings na jeans.
- **Sgert**
  Sgert ddu blaen hyd at y benglin. Mae angen i'r sgert fod o hyd synhwyrol.
- **Sanau / Teits**
  Sanau du neu gwyn gyda throwsus du
  Teits trwchus du gyda sgert
- **Cotiau Ysgol**
  Cot dywyll ddu neu glas. Ni ddylai fod logos mawr ar y got. Ni chaniateir gwisgo cotiau yn yr ystafell ddosbarth. Sylwer nad yw hwdi (na sydd yn hwdi ysgol), yn cael eu caniatáu yn yr ysgol.
- **Esgidiau**
  Esgidiau ysgol lledr du gwastad. Ni chaniateir trainers.

Ni chaniateir disgyblion i wisgo:

- Colur
- Gemwaith (mwclis, breichled, tlysau trwyn) ar wahân i stydiau clust.
- Ewinedd wedi eu peintio, ffug neu acrylig

- **Gwallt**
  Disgwylir steil a lliw gwallt naturiol. Dylai steil y gwallt fod yn synhwyrol ac yn addas i'r gweithle.

Ymarfer Corff

Rhaid sicrhau fod y wisg gywir gan bob disgybl ym mhob gwers.

- Crys Addysg Gorfforol yr ysgol (cynradd ac uwchradd)
- Siorts du plaen neu legins du heb logo.
  Ni chaniateir siorts byr iawn megis rhai Nike Pro.
- Sanau du plaen neu sanau rygbi'r ysgol ar gyfer gemau / gweithgareddau allgyrsiol.
- Pâr o esgidiau addas ar gyfer rhedeg a gemau ar ardaloedd caled.

School Uniform

- Ysgol Llanhari black polo shirt
- Llanhari's official black hoodie which includes the school badge in the Secondary Department and Llanhari's official red jumper which includes the school badge in the primary department. From September 2024, pupils coming to year 7 will be expected to wear the official red jumper rather than the black hoodie.
- **Trousers**
  Black school trousers, straight legged with a loose hemline. Tight, 'skinny' trousers , leggings or jeans are not permitted.
- **Skirt**
  Plain black, knee length skirt. The skirt needs to be a sensible length
- **Socks / Tights**
  Black or white socks with black trousers
  Thick black tights with skirt
- **School Coats**
  A dark black or blue coat. There should not be large logos on the coat. Pupils are not permitted to wear coats in the classroom. Please note that hoodies (which are not school hoodies), are not permitted in school.
- **Shoes**
  Flat black leather school shoes. Trainers are not permitted.

Pupils are not permitted to wear:

- Makeup
- Jewellery (necklace, bracelet, nose studs) apart from ear studs.
- Painted, fake or acrylic nails

- **Hair**
  A natural hair style and colour is expected. Hairstyles should be sensible and suitable for the workplace.

Physical Education

Pupils must ensure they have the correct uniform in every lesson.

- The school's Physical Education shirt (primary and secondary)
- Plain black shorts or leggings without a logo.
  Short shorts such as Nike Pro shorts are not permitted.
- Plain black socks or the school's rugby socks for games / extracurricular activities.
- A pair of shoes suitable for running and games on hard courts.

> Rydym yn hollol fodlon gyda'r ysgol ac yn ffodus iawn i gael ysgol o'r safon yma yn ein hardal.

Diogelu

Uwch Swyddog Penodedig Diogelu Plant yr ysgol yw Mrs Elen George a'r Dirprwy Uwch Swyddog Penodedig Diogelu Plant yw Mrs Elin Hobbs. Mae copi o bolisi Diogelu'r ysgol ar gael drwy gysylltu â'r ysgol. Dosberthir crynodeb o brif weithdrefnau Diogelu Plant yr ysgol i rieni ar dddechrau cyfnod disgybl yn yr ysgol. Y Pennaeth Cynorthwyol Lles a Chynhwysiant sy'n arwain ar hybu cyrhaeddiad a lles disgyblion mewn gofal gyda chymorth y Rheolwr Iechyd a Llesiant.

Ceir ar y Safle

Mae'r ysgol yn annog pob disgybl i deithio i'r ysgol ar drafnidiaeth swyddogol pan fo ar gael. Mae'r defnydd o drafnidiaeth breifat i/o'r ysgol neu rhwng sefydliadau addysgiadol at unrhyw bwrpas dan risg yr unigolyn. Dylai unrhyw ddisgybl 6ed Dosbarth sy'n gwneud hyn sicrhau eu bod yn cadw at reolau'r ysgol ynghlwm â hyn a bod ganddynt yswiriant addas.

Ni chaniateir i rieni ddod â cheir ar safle'r ysgol am resymau Iechyd a Diogelwch.

Diogelwch ar y safle

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod Ysgol Llanhari yn lle croesawgar i ddisgyblion, rhieni ac ymwelwyr. Fodd bynnag, mae diogelwch ar y safle yn hanfodol i les pawb. Cydweithiwn ag AALl Rhondda Cynon Taf i sicrhau bod safle ac adeiladau'r ysgol yn ddiogel. Disgwylir i bob ymwelydd arwyddo i mewn yn y dderbynfa a gwisgo bathodyn Ymwelydd. Defnyddir camerau cylch cyfyng i amddiffyn y safle.

Disgwylir i bob disgybl hyd at Flwyddyn 11 aros ar safle'r ysgol drwy gydol y dydd. Caniateir i fyfyrwyr y Chweched Dosbarth yn unig i adael y safle ar adegau penodol gyda chaniatad rhieni.

Salwch neu ddamwain yn yr ysgol

Mae gan sawl aelod o'r staff dystysgrif cymorth cyntaf. Os oes unrhyw amheuaeth ynglŷn â phlentyn sy'n sâl neu sy'n cael ei anafu yn yr ysgol yna cysylltir â'r rhieni ar unwaith. Os canfyddir bod rhaid cludo'r disgybl i ysbyty yna gelwir ambiwlans a gofynnir i'r rhieni gwrdd â'r plentyn ac aelod o'r staff yn yr ysbyty. Dylai rhieni wneud yr ysgol yn ymwybodol o anghenion meddygol eu plentyn yn rheolaidd a sicrhau bod Epipens mewn dyddiad.

Mae copi o bolisi Iechyd a Diogelwch yr ysgol ar gael drwy gysylltu â'r ysgol.



Safeguarding

The school's Designated Child Protection Officer is Mrs Elen George and the Deputy Designated Officer is Mrs Elin Hobbs. A copy of the school's Safeguarding policy is available by contacting the school. A summary of the school's Child Protection procedures is given to parents when their child starts at the school. The Assistant Head with responsibility for Wellbeing and Inclusion leads on the promotion of the achievement and wellbeing of Looked After Children in conjunction with the Health and Wellbeing Manager.

Cars on site

The school encourages all pupils to travel on approved transport whenever it is provided. The use of private transport, to and from school for any purpose, or to carry passengers to and from school or between educational establishments is at the owner's risk. Sixth form pupils who choose to bring a car on site must ensure adequate insurance and adhere to the school rules specific to this.

Parents are not permitted to bring cars on site for Health and Safety reasons.

Safety on site

Every effort is made to ensure that Ysgol Llanhari is a welcoming place for pupils, parents and visitors. However, safety on the school site is imperative for everyone's welfare. We work closely with Rhondda Cynon Taf LEA to ensure that the school site and buildings are safe. All visitors are expected to sign in at Reception and to wear a Visitors badge. CCTV is used to protect the site.

All pupils up to Year 11 are expected to remain on site throughout the school day. Sixth Form students are permitted to leave the site at particular times with parental consent.

Illness or accidents in school

A number of members of staff have a first aid certificate. If there is any doubt concerning a child who is taken ill or is injured at school then the parents are contacted immediately. If it is deemed necessary to transport a pupil to hospital, an ambulance will be called and the parents will be asked to meet the child and a member of school staff at the hospital. Parents should keep the school updated on any medical situations regarding their child and ensure Epipens are in date.

A copy of the school's Health and Safety Policy is available by contacting the school.

Dogfennau a Pholisiau Statudol

Mae modd i rieni sy'n dymuno gweld copïau o bolisïau'r ysgol neu ddogfennau statudol y Llywodraeth ar Addysg, wneud hynny trwy gysylltu â'r ysgol. Ceir copiau o nifer o bolisiau yn ogystal ar wefan yr ysgol. Ceir copi o'r polisi cwyn ar y wefan.

Addysg Cyd-berthynas a Rhywioldeb

Mae Addysg Cyd-berthynas a Rhywioldeb yn cael ei gyflwyno drwy gyfrwng gwersi penodol a sesiynau bugeiliol yn ogystal ag yn draws-gwricwlaidd ar draws yr ysgol.

Cyd-addoli ac Addysg Grefyddol

Nid yw'r ysgol yn gysylltiedig ag unrhyw enwad benodol. Darperir cyrsiau addysg grefyddol, yn unol â'r gofynion statudol, ar gyfer pob disgybl yn yr ysgol, a chynhelir cyfarfodydd o gyd-addoli'n ddyddiol. Crefydd Gwerthoedd a Moeseg a gyflwynir fel rhan o ddarpariaeth y Cwricwlwm i Gymru. Esgusodir unrhyw ddisgybl nad yw am fynychu gwasanaeth neu wers addysg grefyddol ar sail ffydd neu gredo diwylliannol, os derbynnir cais ysgrifenedig oddi wrth rieni/warcheidwaid.

Polisi Codi Tâl

Mae polisi codi tâl gan yr ysgol sydd ar gael trwy gysylltu â ni.

Cynllun Rhyddid Gwybodaeth

Mae gwybodaeth am hwn ar gael yn yr ysgol.

Cynllun Hygyrchedd a Pholisi Cydraddoldeb

Gellir gweld copiau o'r polisiau yma ar wefan yr ysgol. Mae'r ysgol wedi ymrwymo i weithio tuag at gydraddoldeb. Gwrthwynebir pob math o ragfarn a gwahaniaethu yn seiliedig ar hil, rhyw, cred, iaith, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd neu oed.

Disgyblion ag anableddau

Mae darpariaeth rhesymol ar gyfer disgyblion ag anableddau yn cael ei wneud wrth adeiladu o'r newydd. Mae gan yr ysgol gynllun hygyrchedd cyfredol.

Polisi mynediad

Cysylltwch â ni petaech am ymuno ag Ysgol Llanhari a byddwn yn falch iawn i'ch croesawu. Dilynwn drefniadau polisi mynediad Rhondda Cynon Taf.

Policies and Statutory Documentation

Parents who wish to see copies of the school policies and statutory documents can do so by contacting the school. Copies of many policies are also available on the school website. The Complaints policy can be viewed on the school website.

Relationships and Sexuality Education

Relationships and Sexuality Education is introduced through the medium of specific lessons and pastoral sessions as well as cross-curricular across the school.

Collective Worship and Religious Education

The school is not associated with any particular denomination. Religious education is provided, as a statutory requirement, for every pupil in the school, and meetings of collective worship are held daily. Religion, Values and Ethics is introduced as part of the Curriculum for Wales provision. Any pupil who does not wish to attend assembly or a religious education lesson on the grounds of faith or culture will be exempt by providing a written request from his/her parents.

Charging Policy

The school has a Charging Policy which is available by contacting us.

Freedom of Information Publication Scheme

Information about this is available in school.

Equality Policy and Accessibility Plan

The school's policies are available on the school website. The school is opposed to all forms of prejudice and discrimination based on race, gender, faith, language, sexual orientation, disability or age. The school has a current accessibility plan.

Pupils with disabilities

All new building work around the school ensures that reasonable provision is made for students with disabilities.

Admissions Policy

Please contact us should you wish to join Ysgol Llanhari and we will be more than welcome to meet with you. We adhere to Rhondda Cynon Taf's Admissions policy.

Ysgol Llanhari

Ysgol Bob Oed (3-19 oed) Cyfrwng Cymraeg

Trefn y Dydd:

Adran Gymradd:
Dechrau'r dydd - 8.50yb
Cinio - 12.00-1.00
Diwedd y dydd - 3.10yp

Adran Uwchradd:
Dechrau'r dydd - 8.30yb
Cinio - 12.20-1.00
Diwedd y dydd - 3.00yp

Pennaeth:
Mrs Meinir Thomas

Cadeirydd y Llywodraethwyr:
Mr Simon Poole

Capasiti:
210 Adran Gynradd
937 Adran Uwchradd

Ysgol Llanhari

A 3-19 Welsh Medium All Age School

Organisation of the school day from September 2023:

Primary Department:
Start of day - 8.50am
Lunch - 12.00-1.00
End of day - 3.10pm

Secondary Department:
Start of day - 8.30am
Lunch - 12.20-1.00
End of day - 3.00pm

Headteacher:
Mrs Meinir Thomas

Chair of Governors:
Mr Simon Poole

School Capacity:
210 Primary Department
937 Secondary Department











Ysgol Llanhari

Llanhari, Pontyclun, Rhondda Cynon Taf, CF72 9XE

WWW.LLANHARI.CYMRU

01443 237824
POST@LLANHARI.CYMRU
@YSGOLLLANHARI
@YSGOL_LLANHARI

Ein nod fel ysgol yw cynnig addysg o'r radd flaenaf mewn awyrgylch ysgogol, gynhwysol a Chymreig

Our aim as a school is to provide an education of the highest quality, in an inspiring, inclusive and Welsh environment

CYMUNED CYMREICTOD CYNNYDD